

---

## **Asesiad o sylwedd y newid yn sgil BritBox - penderfyniad terfynol**

Y berthynas rhwng BritBox a gweithgareddau  
Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Medi 2019

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn esbonio ein penderfyniad terfynol ynghylch a yw rhan y BBC yn BritBox, sef gwasanaeth fideo ar-alw newydd drwy danysgrifio ar y cyd ag ITV, yn cael ei ystyried yn 'newid sylweddol' i'w weithgareddau masnachol.**

Pan fydd y BBC yn cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd neu wahanol iawn, mae Siarter y BBC yn mynnu bod angen ystyried a yw'n newid sylweddol i'w weithgareddau masnachol. Os felly, byddai angen archwilio'r newid yn fanwl cyn ei lansio.

Aeth Bwrdd y BBC ati i asesu rhan arfaethedig y BBC yn BritBox, a phennu nad oedd yn sylweddol. O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom ystyried y cwestiwn hwn hefyd, fel rhan o'n rôl i amddiffyn cystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Ein penderfyniad – yn gryno

**Does dim risg sylweddol y bydd rhan arfaethedig y BBC yn BritBox yn ystumio'r farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg.** Ein rôl benodol yw ystyried a fydd hyn yn digwydd o ganlyniad i'r berthynas rhwng gweithgareddau masnachol y BBC, a fyddai'n cynnwys rhan y BBC yn BritBox, a'i weithgareddau sy'n cael arian cyhoeddus ('Gwasanaeth Cyhoeddus' y BBC).

Er mai dim ond 10% o gyfran fydd gan y BBC yn BritBox, mae'n bosibl y gallai problemau godi wrth i'r fenter ddatblygu. Mae gennym ni fesurau ar waith yn barod i reoleiddio'r ffin rhwng gweithgareddau masnachol y BBC a'r Gwasanaeth Cyhoeddus a gallwn ddefnyddio'r rhain i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o bryderon, os byddant yn dod i'r fei. Mae'n bwysig felly ein bod yn parhau i fonitro perthynas y BBC â BritBox er mwyn i ni allu ymyrryd os bydd angen.

Mae dau faes lle nad oes gennym ni reolau ar hyn o bryd:

- lle bo newidiadau i'r modd mae'r BBC yn sicrhau bod ei raglenni ar gael ar wasanaethau masnachol (y "Polisi Rhyddhau Rhaglenni"); ac
- mewn perthynas ag unrhyw achos o BBC iPlayer yn traws-hyrwyddo rhaglenni sydd ar gael ar BritBox.

Credwn na fydd y newidiadau i'r Polisi Rhyddhau Rhaglenni yn creu mantais annheg nac yn ystumio'r farchnad yn sylweddol. Mae Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd ag amcanion Siarter y BBC ac mae'r newidiadau'n debygol o arwain at effeithiau cystadleuol cyfyngedig. Mae'n bwysig bod y BBC yn mynd i'r afael â'r polisi diwygiedig hwn yn deg, heb wahaniaethu a'i fod yn ystyried ceisiadau gan wasanaethau heblaw am BritBox mewn modd hyblyg. Os nad yw hynny'n digwydd, byddem yn debygol o gymryd camau pellach.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod pryderon ynghylch traws-hyrwyddo. Nid ydym yn gwybod eto a fydd traws-hyrwyddo yn digwydd ar BBC iPlayer na sut, ac rydyn ni'n nodi bod gan y BBC eisoes ei reolau ei hun ar draws-hyrwyddo. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn ystyried nawr a oes angen mesurau diogelu mewn perthynas â'r modd mae'r BBC yn traws-hyrwyddo cynnwys ar wasanaethau masnachol er mwyn rhagweld problemau yn y dyfodol. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC roi gwybod i ni am ei gynlluniau cyn bwrw ymlaen.

**Rydyn ni wedi penderfynu felly, er nad yw trefniadau BritBox yn creu newid sylweddol yng ngweithgareddau masnachol y BBC, byddwn yn monitro'r datblygiadau'n ofalus a byddwn yn gallu ymyrryd os bydd pryderon yn codi yn y dyfodol.**